

Galw am Ddarpar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Methodoleg Asesu Safleoedd Drafft

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn nodi dull arfaethedig Cyngor Bro Morgannwg o ran cynnal 'Galwad' cyffredinol am ddarpar safleoedd a methodoleg asesu er mwyn ateb y galw am lety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg 2016 (ALISTh).

Bydd y dull a'r methodoleg asesu yn cael eu defnyddio i adnabod a dewis y safle(oedd) mwyaf priodol i gynnig safle addas a chyflawnadwy i ateb y galw yn unol ag ymrwymadau statudol y Cyngor dan adran o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

2. Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi

Mae ystod o ddogfennau polisi a chanllawiau ar y pwnc hwn ac mae'r rhai mwyaf perthnasol wedi'u hamlinellu isod er mwyn rhoi cefndir.

Deddf Tai (Cymru) 2014 - mae adrannau 102 a 103 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n gywir a bod y galw a nodwyd am safleoedd yn cael ei fodloni.

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 - Mae Adran 56 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr, gofod gweithio a chyfleusterau i gynnal gweithgareddau sydd fel arfer yn cael eu cyflawni arnynt.

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (Rhagfyr 2018) (PCC) - nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru (LIC) ac yn nodi bod angen i awdurdodau lleol asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac os yw Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) yn nodi galw sydd heb ei ateb, dylai awdurdod cynllunio ddynodi safleoedd digonol yn eu cynllun datblygu i sicrhau bod modd bodloni'r gofynion llain a adnabuwyd.

Mae **Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Charafanau'** (Rhagfyr 2007) yn cynnig canllaw i awdurdodau lleol yng Nghymru ar agweddau cynllunio ar ddod o hyd i safleoedd addas i Sipsiwn a Theithwyr. Noda'r cylchlythyr os yw ALSTh yn adnabod galw sydd heb ei ateb am lety Sipsiwn a Theithwyr mewn ardal, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) ddyrannu safleoedd digonol mewn CDLlau i sicrhau bod y gofynion am leiniau a adnabuwyd at ddibenion preswyl a symud yn gallu cael eu bodloni.

Bydd **Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Drafft (Chwefror 2017) 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr'** yn disodli Cylchlythyr 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' ac yn rhoi cyngor ar ystyriaethau i Awdurdodau Lleol wrth gynllunio ateb y galw am Lety Sipsiwn a Theithwyr.

Nododd **Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2016** (CDLI) safle yn Llan-gan i ateb y galw byrdymor am lety gyda darpariaeth bellach yn fframwaith monitro'r CDLI i adnabod safle neu safleoedd eraill i fodloni'r angen tymor hirach am 18 o leiniau (Polisiau MG5 a MD18).

Mae **Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** (Mai 2015) yn ddogfen Llywodraeth Cymru sydd i fod yn ganllaw i Awdurdodau Lleol o ran cynnig gwasanaethau priodol

am bris resymol i'r pwrw cyhoeddus i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl yng Nghymru. Mae'n cynnwys canllaw ymarferol i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu safleoedd yn addas at y diben.

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi **Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** (Mai 2015) i annog a chefnogi'r broses o rannu arfer da a dulliau cyson o ran rheoli llety Sipsiwn a Theithwyr.

Mae **Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr** (2008) yn ganllaw Llywodraeth Cymru i helpu Sipsiwn a Theithwyr i gynllunio eu safleoedd carafanau.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i gyflawni ei nodau datblygu cynaliadwy neu lesiant. Mae'r adroddiad hwn a'r asesiad safle wedi cael ei lunio gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel y nodwyd yn Neddf 2015. Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu hateb heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion hwy.

3. Angen am Lety Sipsiwn a Theithwyr

Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflawni asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) a, lle nodir bod angen sydd heb ei fodloni, yn darparu lleiniau mewn safle preswyl.

Bydd yr ALISTh yn cael ei baratoi'n unol â chanllawiau a grëwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnig sail dystiolaeth gadarn a chredadwy i ddeall ymhellach anghenion llety sipsiwn a theithwyr ym mhob ardal awdurdod lleol.

Cafodd ALISTh diweddaraf Cyngor Bro Morgannwg ei baratoi gan Opinion Research Services Ltd ar ran y Cyngor yn 2016 a chafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Weinidogion Cymru'n unol â darpariaethau adran 102 Deddf Tai (Cymru) ar 28 Mawrth 2017.

Nododd yr ALISTh angen byrdymor ym Mro Morgannwg (hyd at 2021) am 2 lain ychwanegol, ac yn y tymor hirach (hyd at 2026) angen am 18 o leiniau eraill. Golyga hyn cyfanswm angen am gyfnod y CDLI yn ei gyfanrwydd hyd at 2026 yn 20 o leiniau. Nododd yr ALISTh nad oedd unrhyw ofyniad am ddarpariaeth dros dro ym Mro Morgannwg ond y dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer o wersylloedd heb awdurdod ac ystyried defnydd o oddef byrdymor neu Drefniadau Stopio wedi'u Negodi i ddelio ag arosiadau byrdymor.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 (CDLI) wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017 ac mae'n cynnwys Polisi MG5 sy'n darparu ar gyfer safle sipsiwn a theithwyr 2 lain yn Llan-gan ar safle y mae'r Cyngor yn berchen arno i fodloni anghenion llety tymor canolig sipsiwn a theithwyr a nodwyd yn yr ALISTh hyd at 2021.

Mae Fframwaith Monitro'r CDLI yn gosod amserlen 2 fly6nedd i adnabod safle priodol ar gyfer yr 18 o leiniau ychwanegol y nodwyd yn yr ALISTh yr oedd eu hangen erbyn

2026, ac mae'n cynnwys pennu Bwrdd Llety Sipsiwn a Theithwyr (y Bwrdd) i oruchwylio'r gwaith o adnabod a chyflawni'r safle (cyfeirir at Atodiad 1).

Roedd gwaith cychwynnol y Bwrdd yn cynnwys archwilio tir ym mherchnogaeth y Cyngor ac roedd gwaith â pherchnogion tir mawr yn y Fro yn aflwyddiannus o ran cydnabod safle sipsiwn a theithwyr addas. Felly, argymhellir bod 'Galwad' cyffredinol am ddarpar safleoedd i'w defnyddio fel safle sipsiwn a theithwyr yn ffordd ymlaen priodol.

Bydd y fethodoleg asesu a nodir isod yn cael ei ddefnyddio i asesu'n llawn y safleoedd a gyflwynir drwy'r galwad am ddarpar safleoedd.

4. Maint y Safle

Noda Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 nad yw'n cael ei ystyried yn briodol i osod uchafswm main cenedlaethol ar gyfer safle, ond y dylai safleoedd gael eu hystyried yng nghyd-destun y seilwaith lleol a maint a dwysedd y boblogaeth i sicrhau nad ydynt yn dominyddu cymunedau sefydlog lleol.

Fel lleiafswm, noda'r Canllaw Arfer Da ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, y dylai pob llain fod â digon o le ar gyfer ystod o gyfleusterau penodol gan gynnwys bloc amwynderau, ôl-gerbyd mawr, carafán symudol a pharcio ar gyfer dau gerbyd. Os oes lle ychwanegol ar gael, ystyrir cynnwys gofod chwarae i blant yn hanfodol. Yn gyffredinol, dylai lleiniau gynnwys yr hyn a ganlyn:

- Uned wasanaeth sy'n gysylltiedig â chyflenwad dŵr, draeniau, trydan a gwasanaethau/cyfleusterau eraill;
- Ardal lefel ag wyneb caled gyda draeniau;
- Darpariaeth ar gyfer sychu dillad;
- Sied y mae modd ei gloi ar gyfer offer gwaith llaw, beics, storio ychwanegol;
- Cynhwysydd addas ar gyfer gwastraff domestig a/neu fynediad at gynhwysydd ar gyfer gwastraff mwy;
- Dosbarthiad o fannau cysylltu â thrydan er mwyn gosod carafanau ac ôl-gerbydau yn wahanol;
- Modd o ddiogelu carafanau ac ôl-gerbydau yn ystod gwyntoedd mawr megis cylchoedd dur mewn concriid, fyddai'n caniatáu i raffau gael eu rhoi ynddynt a chadw carafanau ac ôl-gerbydau rhag symud yn y gwynt;
- Cysylltu â systemau draeniau a charthffosiaeth; a Lleddfu risg o lifogydd.

Drwy ymgysylltu â meddianwyr safle Hayes Road, mae wedi dod i'r amlwg nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth ffurfiol o leiniau'n bodloni eu hanghenion a'u dyheadau o ran sut yr hoffent fyw ar y safle, er enghraifft, maent wedi nodi dyhead i gael mwy o drefniadau anffurfiol / organig ac ychydig o gyfleusterau a rennir / cymunedol a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod Cam 3 y broses asesu a nodir isod.

At ddibenion y 'Galwad am Ddarpar Safleoedd', nodir mai maint llain priodol yw rhwng 400 - 450 metr sgwâr fyddai gyfystyr â gofyn am safle oddeutu 0.81 hectar. Credir ei bod hi'n hanfodol ystyried datblygiad posibl sawl safle i fodloni'r anghenion a nodir yn

yr ALISTh. Yn hyn o beth, ystyrir y byddai gosod trothwy lleiafswm maint y safle yn 0.5 hectar yn briodol.

5. Methodoleg

Er nad oes amserlen neu fethodoleg benodol ar gyfer 'Galwad am ddarpar safleoedd' ac yn benodol safleoedd sipswm a theithwyr, fel arfer nodir proses darpar safleoedd cyffredinol yn benodol yn y Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Fersiwn 3 (Drafft Mehefin 2019).

Fel yn fersiynau blaenorol y llawlyfr CDLI, mae 'Galwad' am ddarpar safleoedd yn gydran graidd o'r broses creu CDLI ac er na roddir unrhyw fanylion, nodir sawl elfen yn y llawlyfr fel cydran sy'n hanfodol i alwad llwyddiannus ar gyfer darpar safleoedd megis defnyddio ffurflen benodol gan nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu mewn ffordd gyson a chynhwysfawr. Er nad oes cyfnod amser penodol ar gyfer y cam 'galw am safleoedd', mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu cyfnod ymgynghori o leiaf 6 wythnos wrth alw am safleoedd posibl. Felly, ystyrir y dylai'r elfennau hyn hefyd fod yn rhan o unrhyw 'Alwad' am safleoedd sipswm a theithwyr.

Felly, cynhigir y broses ganlynol:

- Paratoi darpar safle i'w ddefnyddio yn y galw am safleoedd;
- Rhoi hysbyseb yn y papurau newydd ym Mro Morgannwg ar ddwy wythnos yn olynol. Bydd yr hysbyseb yn amlinellu'r broses 'galwad', yr amserlen y mae'n rhaid cyflwyno safleoedd ynddi a lle gellid cael rhagor o wybodaeth a ffurflenni cyflwyno - mae copi o hysbyseb arfaethedig yn Atodiad 5;
- Rhoi'r holl wybodaeth berthnasol ynghylch y 'Galwad' am ddarpar safleoedd, gan gynnwys y ffurflen gyflwyno ar wefan y Cyngor gydol y cyfnod chwe wythnos;
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phosteri ym mhrif swyddfeydd y Cyngor i hyrwyddo'r broses galw am ddarpar safle; a
- Ysgrifennu at ystod o bartïon â diddordeb, unigolion, cwmnïau a pherchnogion tir mawr ym Mro Morgannwg yn rhoi gwybod iddynt am y 'Galw' am ddarpar safleoedd sipswm a theithwyr a'r cyfle i gyflwyno safleoedd.
- Cynnal proses asesu safle yn unol â'r fethodoleg asesu a nodir yn y papur hwn.

Ffurflen Darpar Safle

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai ACLlau wahodd cyflwyniad darpar safleoedd ar ffurflen safonol sy'n nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau ei bod yn cael ei chasglu mewn modd cyson a chynhwysfawr.

Er y bydd bob safle a gyflwynir yn amodol ar asesiad llawn a thrylwyr i ddechrau, bydd y wybodaeth ofynnol ar y ffurflen gyflwyno darpar safleoedd yn gyfyngedig i wybodaeth sydd ei hangen i adnabod lleoliad y safle, unrhyw gyfyngiadau mawr a holl fanylion cyswllt y rhai sy'n cyflwyno'r safle. Mae ffurflen Ddarpar Safleoedd arfaethedig wedi'i hatodi yn Atodiad 2.

Cofrestr Darpar Safleoedd

Bydd bob safle a gyflwynir i'w hystyried o fewn yr amserlen yn cael eu rhoi ar Gofrestr Darpar Safleoedd. Bydd y gofrestr ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor ac yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ar y safle gan gynnwys ei leoliad, ei faint a'i ddefnydd presennol. Rydym wedi atodi tudalen o Gofrestr Darpar Safleoedd blaenorol y Cyngor (Cofrestr Galwad am Ddarpar Safleoedd CDLI cychwynnol Mai 2007) yn Atodiad 4 fydd yn sail i'r gofrestr darpar safleoedd sipsiwn a theithwyr.

Asesu Safleoedd a Gyflwynir

Bydd bob safle a gyflwynir yn destun asesiad â thri cham.

Asesiad Cam 1

Bydd yr asesiad Cam 1 yn cynnwys asesiad desg cychwynnol o'r safleoedd gan ddefnyddio system 'goleuadau traffig' syml sy'n asesu safleoedd yn erbyn ystod o gyfyngiadau cyffredinol e.e. dynodiadau amgylcheddol, dynodiadau polisi ac ati. Bydd hyn yn amlygu unrhyw gyfyngiadau neu faterion all atal defnydd o'r safle e.e. C2 llifogydd neu faterion all fod angen rhagor o ystyriaeth fanwl er mwyn ystyried yn llawn eu heffeithiau posibl. Byddai'r system goleuadau traffig yn gweithio fel a ganlyn:

- Gwyrdd - heb adnabod unrhyw faterion na chyfyngiadau.
- Oren - wedi adnabod materion neu gyfyngiadau, fodd bynnag efallai bydd modd lleddfu'r rhain ac ni fydd angen atal y safle rhag cael ei datblygu - gwarentir ymchwiliadau pellach.
- Coch - wedi adnabod problemau a chyfyngiadau mawr fyddai'n atal y safle rhag cael ei ddatblygu a does dim angen unrhyw ymchwiliadau pellach.

Mae'r ffurflen asesiad cam 2 arfaethedig wedi'i hatodi yn Atodiad 3.

Asesiad Cam 2

Bydd unrhyw safleoedd sy'n cael ambr neu wyrdd yn y gwerthusiad cychwynnol yn amodol ar asesiad manylach yn cynnwys rhagor o archwiliadau i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod Cam 1. Bydd hyn yn cynnwys ceisio unrhyw sylwadau manwl gan adrannau mewnol ac asiantaethau allanol ar y safle, defnydd arfaethedig y safle ac unrhyw faterion a adnabuwyd gan gynnwys ystyriaethau yn erbyn polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol. Bydd unrhyw safleoedd sydd â materion a/neu gyfyngiadau mawr a nodir yn ystod y cam hwn fyddai'n atal y safle rhag cael ei ddatblygu yn cael ei ddiystyru yn ystod y cam hwn.

Asesiad Cam 3

Bydd cam olaf y broses asesu'n cynnwys asesiad o'r safleoedd sy'n weddill yn erbyn Fframwaith Asesiad Cynaliadwyedd y Cyngor (AC) gafodd ei ddatblygu yn ystod cam sgopio'r gwaith o greu'r CDLI ac mae'n dal i fod yn berthnasol. Mae'r Fframwaith yn cynnwys 15 o Amcanion Cynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sydd yn rhoi mewnelediad cyffredinol i gynaliadwyedd y CDLI neu safle pan fyddant yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Cynhelir asesiad ansoddol pellach i adnabod safle a ffefrir, gan gynnwys ystyried (ddim mewn trefn) anghenion a dyheadau'r gymuned Deithwyr, integreiddiad posibl â chymunedau a/neu fusnesau cyfagos, cyflawnadwyedd y safle, addasrwydd i fodloni anghenion a adnabuwyd ac anghenion y dyfodol o bosibl a gwerth am arian.

Canlyniadau/Argymhellion yr Asesiad

Ar ôl cael asesiad llawn, os yw safle'n cael ei ystyried yn addas ar gyfer datblygiad fel safle sipsiwn a theithwyr, bydd y Bwrdd Tai Strategol yn ystyried ymhellach y safle ac yn argymhell rhaglen waith i fwrw ymlaen â'r safle drwy'r broses ddatblygu e.e. caniatâd cynllunio, cyllid ac ati.

Atodiad 1: Detholiad o Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026 Bro Morgannwg

Rhif Cyfeirnod	Dangosydd – Craidd / Lleol	Targed Monitro	Pwynt Sbardun	Amcanion AC/Polisiau Perthnasol	Ffynhonnell Data
7.5	LLEOL: Bodloni'r angen i'r dyfodol am Lety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig.	Pennu Bwrdd Llety Sipsiwn a Theithwyr	Erbyn Mehefin 2016	Polisiau Strategol: SP1 Rheoli Twf / Datblygiad Polisiau: MD18	CBM / ALISTh
		Cytuno ar drefniadau rheoli project gan gynnwys strwythur adrodd.	Erbyn diwedd Mehefin 2016		
		Gwneud cyswllt cychwynnol a chynnal cyswllt â meddianwyr Hayes Road.	Gorffennaf 2016 tan Mai 2018		
		Cytuno ar fethodoleg i gynnal chwiliad ac asesiad safle.	Erbyn diwedd Rhagfyr 2016		
		Cynnal chwiliad ac asesiad safle a chadarnhau cymeradwyaeth o'r canfyddiadau gan gynnwys adnabod safle/safleoedd priodol a chadarnhau caniatâd cynllunio ac, os yw'n briodol, cyllid (gan gynnwys unrhyw grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer y safle.	Erbyn diwedd Mai 2018		

Atodiad 2: Ffurflen Darpar Safle



At ddefnydd y swyddfa yn unig

Rhif y Cyflwyniad:

.....

Cyngor Bro Morgannwg

Galwad Cychwynol am Ddarpar Safleoedd Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Diogelu Data

Sut bydd eich cyflwyniad darpar safle a'ch gwybodaeth yn cael eu defnyddio.

Caiff yr holl wybodaeth a gaiff ei chyflwyno ei weld yn llawn gan staff Cyngor Bro Morgannwg fydd yn ymwneud â'r chwiliad am safle sipsiwn a theithwyr. Bydd eich enw, manylion y safle a'r wybodaeth a roddoch ar y ffurflen hon yn cael eu cyhoeddi mewn Cofrestr Darpar Safleoedd fydd ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor.

I'ch helpu chi i gyflwyno sylwadau, mae fersiwn drydanol o'r ffurflen ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk/ldp.

Llenwch ffurflen darpar safle ar wahân ar gyfer bob safle yr hoffech ei gyflwyno i gael ei ystyried. **RHAID** i bob ffurflen darpar safle fod â Chynllun Arolwg Ordians clir ar raddfa briodol (1:1250, 1:2500). Rhaid i ffin y darpar safle gaiff ei gyflwyno fod yn glir oherwydd llinell goch.

Mae ffurflenni darpar safleoedd ychwanegol gan y Tîm Polisi CDLI ar 01446 700111 neu gellid eu lawrlwytho o wefan y Cyngor yn: www.bromorgannwg.gov.uk/ldp neu gallwch wneud copi o'r ffurflen hon.

Wrth gyflwyno sylwadau defnyddiwch daflenni gwahanol yn ôl yr angen, gan nodi'n glir bob taflen yn olynol.

This document is available in other formats upon request
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill drwy holi

Rhan 1: Manylion Cyswllt (y Cynigiwr)

	Eich Manylion / Manylion Eich Cleient	Manylion yr asiant (os yw'n berthnasol)
Enw		
Cyfeiriad		

Cod Post		
Rhif Ffôn		
Cyfeiriad E-bost		
Rhan 2a: Am y Safle hwn		
Enw'r safle		
Cyfeiriad y safle		
Cod Post		
Cyf Grid	Dwyreiniad	Gogleddiad
Maint y safle (Ha)		
Defnydd Presennol o'r Safle		
Defnyddiau cyfagos		

Rhan 2b: Amwynderau - Oes gan y safle/yw'r safle'n gallu cysylltu â'r amwynderau hyn?			
	Ydy	Nac ydy	Sylwadau ychwanegol/manylion pellach
Prif Gyflenwad Dŵr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Prif Gyflenwad Trydan	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Prif Gyflenwad Nwy	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Prif System Garthffosiaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Rhan 2c: Perchnogaeth y Safle		
	Ydy	Nac ydy
Yw'r safle ym mherchnogaeth y cynigiwr yn gyfan gwbl?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Os na, yw'r holl perchnogion tir eraill yn gwybod am y cyflwyniad hwn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os oes mwy nac un perchennog tir, rhowch fanylion cyswllt bob perchennog tir ychwanegol sydd heb ei nodi yn Rhan 1 uchod.

Perchennog Ychwanegol 1	
Perchennog Ychwanegol 2	
Perchennog Ychwanegol 3	

Rhan 2d: Materion Cynaliadwyedd

	Ydy	Nac ydy	Sylwadau ychwanegol/manylion pellach
Oes unrhyw gyfyngiadau ffisegol sy'n effeithio ar y safle e.e. topograffi, mynediad?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Yw'r safle'n debygol o gael llifogydd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Oes unrhyw ddiddordebau ecolegol ar y safle?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Oes posibilrwydd o halogiad yn y safle o ganlyniad i ddefnyddiau tir blaenorol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Yw'r safle'n gweld effaith materion cymdogion gwael e.e. rheilffyrdd, diwydiant trwm, llinellau pŵer?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Oes gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn agos at y safle e.e. o fewn 500m?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Rhan 3: Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r safle

*Defnyddiwch ddalen ychwanegol os oes angen.
Nodwch sawl dalen ychwanegol a ddefnyddiwyd....*

Llofnod:		Dyddiad:	
----------	--	----------	--

DIOLCH AM Y WYBODAETH AR Y DARPAR SAFLE

Dylid dychwelyd ffurflenni Darpar Safleoedd cyflawn i'r Tîm CDLI un ai:

AR-LEIN: Drwy lenwi'r ffurflen electronig yn www.bromorgannwg.gov.uk/ldp

DWY E-BOST: At LDP@valeofglamorgan.gov.uk

DRWY'R POST: Drwy anfon at: Tîm CDLI, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, Y Barri, CF63 4RT

**DYLAI FFURFLENNI DARPAR SAFLEOEDD GAEL EU DYCHWELYD DDIM
HWYRACH NA
5.00 pm ar y [dyddiad]**

NI FYDD FFURFLENNI A DDERBYNNIR AR ÔL HYN YN CAEL EU HYSTYRIED

Cofiwch atodi cynllun Arolwg Ordnans ar raddfa briodol (1:2500, 1:1250) gan amlinellu'n glir mewn coch ffin y darpar safle a gynhigir.

Dylid llenwi un ffurflen ar gyfer bob darpar safle.

SYLWCH: bydd darpar safleoedd a gyflwynir yn rhan o'r broses yn cael eu hystyried yn erbyn angen y Cyngor i adnabod safle sipsiwn a theithwyr addas. Ni fydd unrhyw gymeradwyaeth o'r safle at y diben hwn yn cydnabod/awgrymu bod modd i'r safle gael ei ystyried yn addas ar gyfer defnyddiau amgen e.e. tai marchnad.

Atodiad 3 Enghraifft o Dabl Asesu'r Safle

Enw'r safle	ID y Safle			Lefel
Cyfeiriad y safle				
Arwynebedd y Safle (ha)				
Ward				
Cyf Grid	Dwyreiniad		Gogleddiad	
Defnydd Presennol				
Defnyddiau cyfagos				
Topograffeg				
Perchnogaeth	Sengl	<input type="checkbox"/>	Sawl	<input type="checkbox"/>
Cyfyngiadau Safle				
Llifogydd				
SoDdGA				
Chwarel / Ardal Byffro Chwarel				
Lletem Las				
Mynediad				
Llifogydd Dŵr Wyneb				
GHC				
ATA				
Adeiladau Rhestredig				
HTC				
SoBCN				
Ardal Gadwraeth				
Coetir Hynafol				
Henebion Hynafol				
Tir Amaethyddol				
GDC				
Dynodiadau CDLI Eraill				
Dynodiadau Eraill				
Argaeledd Nwy/Trydan				
Prif gyflenwad dŵr				
Prif gyflenwad trydan				
Prif gyflenwad nwy				
Prif gyflenwad carthffosiaeth				
Sylwadau Adrannol				
Eiddo				
Gwasanaethau Cyfreithiol				
Hamdden				
Adfywio				
Cyffredinol				
Asesiad Cyffredinol				
	Heb adnabod unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar ddatblygiad y safle at y diben arfaethedig.			
	Wedi adnabod ychydig o gyfyngiadau sy'n effeithio ar ddatblygiad y safle at y diben arfaethedig. Angen asesiad pellach i bennu a oes modd lleddfu'r materion hyn i alluogi datblygiad y safle.			

Wedi adnabod cyfyngiad fyddai'n atal datblygiad y safle. Dim angen aseiad pellach.


Atodiad 4: Enghraifft o'r Gofrestr Darpar Safleoedd

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Local Development Plan Candidate Site Register
(as at 31st May 2007)

Local Development Plan **Cynllun Datblygu Lleol**

Map:



Site ID No: 2570/CS. 1
Ward: Cadoc
Area:(Ha) 3.685
Site Location: land at Pencoedre, North East Barry.
Existing Use: Agriculture
Proposed Use: Residential

© Crown copyright. All rights reserved. The Vale of Glamorgan Council Licence No. 100023424 2007.
Easting: 312378 Northing: 170467

04 June 2007 Page 9

Atodiad 5: Hysbysiad i'r Wasg am Ddarpar Safleoedd

ANGEN TIR AR GYFER SAFLE SIPSIWN A THEITHWYR

CYNGOR BRO MORGANNWG

GWAHODDIAD I GYFLWYNO DARPAR SAFLEOEDD AR GYFER

LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026 ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2018 ac mae'n cynnwys ymrwymiad yn y Fframwaith Monitro cymeradwy i adnabod safle addas i sipsiwn a theithwyr i ddarparu ar gyfer yr angen a adnabuwyd yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor 2016.

Felly, mae'r Cyngor yn 'Galw' am ddarpar safleoedd er mwyn darparu ar gyfer safle sipsiwn a theithwyr yn y sir ac yn gwahodd datblygwyr, perchnogion tir a phartion eraill â diddordeb i adnabod tir i enwebu darpar safleoedd i'w defnyddio fel safle sipsiwn a theithwyr.

Bydd y 'Galwad' am safleoedd ar agor o [DYDDIAD] ac yn cau ar 5pm ar [DYDDIAD].

Dylid cyflwyno darpar safleoedd ar y Ffurflen Darpar Safleoedd sydd ar gael ar wefan y Cyngor ar www.bromorgannwg.gov.uk/CDLI neu o Swyddfa'r Dociau y Cyngor yn Y Barri.

Dylai bob darpar safle a gyflwynir fod o leiaf 0.5 hectar o ran arwynebedd.

Dylid anfon Ffurflenni Cyflawn ddim hwyrach na [DYDDIAD] at:

Y Tîm CDLI
Swyddfa'r Dociau
Dociau y Barri
Y Barri
CF63 4RT

E-bost: ldp@valeofglamorgan.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ar www.bromorgannwg.gov.uk/LDP neu drwy gysylltu â'r Tîm CDLI ar 01446 704665.